

CAITLIN

Cyflwyniad

Mae Eddie Ladd yn aml yn dewis creu perfformiad am berson cyfoes neu hanesyddol boed yn ddyn neu'n fenyw. Drwy ddefnyddio ffeithiau am fywyd rhywun mae'r strwythur yn dod yn glir wrth greu darn o waith. Gall perfformiwr ddilyn syniadau'r person neu ddefnyddio digwyddiadau yn eu bywyd.



Yn yr achos hwn mae Eddie Ladd wedi dewis Caitlin a fu'n briod â'r bardd Dylan Thomas.

Cyfarfu Dylan a Caitlin mewn tafarn yn Llundain, ac yn ôl y stori fe gysgon nhw gyda'i gilydd yr un noson, gan roi cost yr ystafell wely i'w chariad ar y pryd, yr artist Augustus John. Fe briodon nhw flwyddyn yn ddiweddarach.

Diffiniwyd eu bywyd gyda'i gilydd gan angerdd, yn llawn yfed, affêrs a dadleuon. Pan syrthiodd Thomas i'w goma tyngedfennol dywedir i Caitlin gyrraedd Efrog Newydd gyda'r geiriau: "Is the bloody man dead yet?"

Ond roedd cariad yn perthyn i'w bywydau hefyd. Ar ôl ei marwolaeth roedd ewyllys Caitlin yn mynnu ei bod yn cael ei chladdu gyda'r bardd yn ei fedd syml yn Nhalacharn.

Mae ei farddoniaeth ef ei hun yn mynegi'r gwirionedd hyfryd hwn:

**"Though lovers be lost love shall not;
And death shall have no dominion"**

Yn ôl ei thystiolaeth hi ei hun, ar ôl i Dylan farw fe brofodd Caitlin drallod emosiynol a seicolegol difrifol, a chafodd driniaeth mewn clinigau a gwallgofdai yn Llundain,

Rhufain a Catania. Dechreuodd fynychu *Alcoholic Anonymous* yn 1973, a hithau'n 60 oed.

Beth yw *Alcoholics Anonymous*?

Mae *Alcoholics Anonymous* yn gymdeithas ryngwladol o bobl sydd wedi cael problemau yfed. Mae'r cymorth ar gael i bawb beth bynnag yw eu hil, gwleidyddiaeth neu grefydd. Nid oes unrhyw ofynion oedran nac addysg. Mae aelodaeth ar agor i unrhyw un sydd am wneud rhywbeth ynglŷn â'u problem yfed.

Fe sefydlwyd *Alcoholics Anonymous*, neu A.A. fel yr adnabyddir ef bellach, gan ddau ŵr yn Ohio, nôl yn 1935.

Cynulleidfa

Un peth sydd yn eich taro wrth wyllo gwaith Eddie ladd yw ei bod yn herio'r gynulleidfa yn gyson gyda'r ffordd mae'r sioe wedi ei lwyfannu neu gyda'r cynnwys.

Yn hyn o beth mae hi'n dilyn traddodiad nifer o ymarferwyr pwysig fel Brecht, Artaud a Grotowski. Mae'r rhain i gyd rhywdro yn ystod eu bywydau wedi ceisio ennyn ymateb cryf gan y gynulleidfa drwy wahanol dechnegau.

Wrth wyllo 'Caitlin' mae'n amlwg bod Eddie Ladd am i'r gynulleidfa deimlo yn rhan o'r grŵp *Alcoholics Anonymous*. Drwy gael golau arferol mae'r gynulleidfa yn gallu gweld ei gilydd a hefyd mae'r perfformiwr yn gallu gweld pob aelod o'r gynulleidfa.


Mae hyn yn gwneud i'r gynulleidfa deimlo yn annifyr ac yn nerfus gan fod y ffiniau rhyngddynt a'r perfformiwr wedi eu torri yn llwyr. Gwneir hyn yn fwriadol gan fod y cynnwys yn herio pobl i edrych ar salwch alcoholiaeth ac maent yn teimlo y gallan nhw fod yn yr un sefyllfa.

CAITLIN

Tasg 1

1. Meddyliwch am rywun rydych chi'n ei adnabod. Gall y person fod yn unrhyw oedran, yn ffrind neu'n berthynas neu rywun rydych yn adnabod drwy rywun arall.
2. Crëwch fap meddwl o'r person gan ysgrifennu popeth rydych yn cofio am y person.

[Dyma enghraifft o fap meddwl o berson anhysbys]



3. Wedi gwneud hyn dewiswch dau beth rydych chi yn credu sy'n ddi-ddorol am y person.
4. Ewch i wagle gyda chadair a byrfyfiwch am y ddau beth drwy siarad â chynulleidfa ddychmygol. Ceisiwch siarad am tua dwy funud .

5. Wedi gwneud hyn sgriptiwch beth rydych wedi ei ddweud.
6. Darllenwch eich araith fer i weddill y dosbarth gan ofyn am ymateb i beth rydych yn ei ddweud e.e. ydy'r person yn hapus neu oes anghenion ganddynt?

Tasg 2

1. Ewch ar y we i chwilio am ddau ffotograff o berson – un o ddechrau'r ugeinfed ganrif ac un o'r 1950au.
2. Wedi dewis eich lluniau astudiwch y lluniau yn ofalus gan edrych am nodweddion penodol e.e. gwisg, lleoliad, pwy arall sydd yn y llun a.y.b.
3. Tynnwch lun syml o ddyn sinsir ar ddarn o bapur - dwywaith.
4. Nodwch ar y siapiau popeth rydych chi wedi penderfynu am y ddau lun . Eu teimladau, amgylchiadau, nodweddion, problemau.
5. Wedi gwneud hyn adroddwch yn ôl i'r dosbarth am eich cymeriadau.
6. Dewiswch un o'r cymeriadau a chrëwch fonolog fer sydd yn sôn am ddigwyddiad pwysig ym mywyd y cymeriad.
.
7. Wedi creu'r fonolog, perfformiwch o flaen y dosbarth.
8. Ewch nôl at eich cymeriad a'r tro yma cyflwynwch eich monolog drwy symudiadau yn unig. Gallwch ddefnyddio offer os ydy hyn o gymorth i chi.

Tasg 3 Gweithiwch mewn parau neu grŵpiau o dri.

1. Dewiswch gymeriad cyfoes neu hanesyddol ac ymchwiliwch i'w fywyd / bywyd. Dyma restr o bobl i ddewis ohonynt - mae'r dewis yn eang iawn!
 - Angharad Tomos
 - Ffred Ffransis
 - Gwynfor Evans
 - Tani Grey-Thompson
 - Nigel Owens
 - Sian Phillips
 - Richard Burton
 - Dylan Thomas
 - Gwen John
 - Edward de Walden
 - Jan Morris
 - Tom Jones
 - Marie Curie
 - Gareth Bale
 - Shirley Bassey
 - Dafydd Iwan
 - Eileen Beasley
 - George North
 - Emyr Llywelyn
 - Chwiorydd Davies o Gregynog
 - Aaron Ramsey
2. Wedi dewis cymeriad ymchwiliwch i'w bywyd gan nodi ffeithiau amdanynt, am eu credoau a'u perthynas â phobl. Yna chwiliwch am luniau ohonynt a'u teulu / ffrindiau.
3. Casglwch yr holl ffeithiau a gwybodaeth a'u gosod ar wal wedi ei drefnu yn ôl syniadau, llif amser a.y.b. Wrth wneud hyn ac wrth drafod eich gwaith efallai y cewch chi rhai syniadau ynglŷn â chreu cyflwyniad am y cymeriad.
4. Ysgrifennwch dri / bedwar gair sydd yn cyfleu'r person i chi ac wedi gwneud hyn fe allwch ddechrau meddwl am greu cyflwyniad am y person.
5. Efallai eich bod yn dewis dangos hanes eu bywyd neu'n canolbwyntio ar un digwyddiad pwysig yn eu bywyd. Efallai eich bod am ddilyn sut y datblygodd eu syniadau.
6. Wedi gwneud hyn mae angen creu golygfeydd drwy fyrfyfrio. Gwnewch un olygfa ar y tro a pheidiwch â cheisio gwneud gormod mewn un sesiwn.
7. Wedi i chi greu golygfa ceisiwch ei recordio fel ei bod ar gof a chadw yn ddiogel.
8. Chwiliwch am gerddoriaeth sydd yn gweddu i'ch cyflwyniad a'r cymeriad.
9. Crëwch olygfeydd heb eiriau ond gyda symudiadau i gyfleu digwyddiad.
10. Wedi pythefnos o waith dylai bod eich cyflwyniad yn barod. Ceisiwch ddefnyddio set syml a cherddoriaeth.

Tasg 4

Dewiswch olygfa fer yr ydych yn gyfarwydd iawn â hi.

Cyflwynwch y darn mewn ffordd sydd yn wahanol i'r gwreiddiol ac sydd hefyd yn herio'r gynulleidfa.

Gall hyn olygu symud y gynulleidfa, eu gosod mewn ffordd wahanol. Peidiwch â dibynnu ar sgrechian a gweiddi yn unig. Meddyliwch am gerddoriaeth a goleuo.

Arbrofwch gyda mwy nag un arddull.

Ymchwiliwch i'r ffordd roedd Artaud, Brecht a Grotowski am i gynulleidfa deimlo. Cofiwch fod syniadau'r rhain wedi eu haddasu erbyn hyn ac mae'n bosib i chi eu haddasu nhw hefyd.

Perfformiwch o flaen y dosbarth ar ôl wythnos o baratoi.

Clip:

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Caitlin%20Cut%202.C.mov>

Cydnabyddiaeth:

Diolch i Culture Club / Getty Images am yr hawl i ddefnyddio llun Dylan Thomas a Caitlin.